| | | |
|---|---|---|
| **MAES:** | Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau | Disgrifiad o'r Wers: Bydd y disgyblion yn darganfod beth yw SSN. Drwy weithgareddau a gwaith grŵp byddant yn dysgu am adnabod y risgiau a chanlyniadau defnyddio'r sylweddau. Rhoddir cyfle iddynt ddatblygu strategaethau i helpu i ddelio â phwysau gan gyfoedion a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymorth, cefnogaeth a chyngor sydd ar gael. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | CA3 | |
| **GWERS:** | Newydd a Niweidiol | |

## NOD

Deall effeithiau niweidiol Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN) a'ch helpu chi i wneud dewisiadau gwybodus.

## AMCANION Y WERS

- Gwybod beth ydi Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN).
- Gwybod beth yw'r gyfraith o ran SSN.
- Darganfod ffyrdd i'ch helpu chi wrthsefyll pwysau gan gyfoedion.
- Gwybod lle i fynd am gymorth a chyngor.

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh 2008

- Ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. S(DM)
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau ar gyfer myfyrdodau personol. S(DM)
- Bod yn bendant a gwrthod pwysau digroeso gan gyfoedion S (GGE)
- Deall beth yw effeithiau a risgiau defnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r deddfau perthnasol sy'n eu rheoli. Y(ILLE)
- Deall y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Y(ILLE)
- Deall y gweithredoedd sy'n dda ac yn ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig a sefyllfaoedd bywyd Y(DMY)

## LLYTHRENNEDD / RHIFEDD

Mae'r wers hon yn cynnwys y canlynol o'r fframwaith llythrennedd / rhifedd

- L (O) siarad (si)
- L (O) gwrando (g)
- L (O) cydweithio a thrafod (c a th)

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN), pwysau gan gyfoedion, risg, canlyniadau

## ADNODDAU

- *Cyflwyniad PowerPoint y wers*
- *Cerdyn i ddiffinio SSN*
- *Geiriau allweddol*
- *Gweithgaredd coeden risg a datganiadau*
- *Cardiau stori lluniau (1-5)*

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Cytuno ar reolau euraidd
- Amlinellu'n glir beth yw cytundeb cyfrinachedd y dosbarth
- Adolygu ac archwilio'r  dysgu o'r wers flaenorol
- Gweithgaredd cychwynnol – datganiadau Ydych chi erioed.....
- Egluro – dangos nod y wers, yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Adolygiad dosbarth – diffiniad o gyffuriau
- Diffinio'r term Sylweddau Seicoweithredol Newydd
- SSN a'r Gyfraith
- Gwaith grŵp a thrafodaeth ddosbarth: Gweithgaredd Coeden Risg: Asesu'r risgiau a'r peryglon
- Gweithgaredd grŵp:  Pwysau gan gyfoedion, cymryd risgiau a'r canlyniadau

### ADOLYGU

- Adolygu'r prif bwyntiau
- Ail-ymweld â'r cwestiynau a ofynnwyd ar ddechrau'r wers.
- Adolygu amcanion y wers ac asesu dealltwriaeth y disgyblion
- Gwybodaeth am gymorth a chefnogaeth

### AWGRYM – GWEITHGAREDDAU DILYNOL I'R ATHRO/ATHRAWES

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael yn yr adran i athrawon ar wefan www.schoolbeat.org